O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2023 Rhif 1260 (Cy. 220)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Hereford Road, y Fenni, Sir Fynwy) (Gwaharddiad a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *24 Tachwedd 2023* |
| *Yn dod i rym* | *30 Tachwedd 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A465, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Hereford Road, y Fenni, Sir Fynwy) (Gwaharddiad a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2023 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 30 Tachwedd 2023.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw—

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**);

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

  (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

  (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

(c) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 30 Tachwedd 2023 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A465 Casnewydd i'r Amwythig;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**Gwaharddiad a chyfyngiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt a bennir yn erthygl 2(c) o'r Gorchymyn hwn, ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt a bennir yn erthygl 2 (a) a (b) o'r Gorchymyn hwn, yn gyflymach nag 40 milltir yr awr ar y darn o gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

---

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

**Cymhwyso**

**5.** Ni fydd y gwaharddiad a'r cyfyngiad yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Atal dros dro**

**6.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

**Cyfnod para'r Gorchymyn hwn**

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 24 Tachwedd 2023

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**
**Gwahardd cerbydau dros dro**

Hyd y gilfan gyfagos i'r gerbytffordd tua'r gogledd ar y gefnffordd, gan gynnwys y lôn arafu sy'n arwain at y gilfan a'r lôn gyflymu sy'n arwain o'r gilfan, gyferbyn â'r fynedfa i Roc House Farm, Hereford Road, y Fenni, Sir Fynwy.

**ATODLEN 2**
**Terfyn cyflymder 40 mya dros dro**

Hyd y darn o gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 500 metr i'r de o ganolbwynt y gilfan gyfagos i'r gerbytffordd tua'r gogledd o'r gefnffordd, gyferbyn â'r fynedfa i Roc House Farm, Hereford Road, y Fenni, i bwynt 460 metr i'r gogledd o ganolbwynt y gilfan honno.